TREAMLOD

CYNLLUN GWEITHREDU CYMUNEDOL

CYNLLUN GWEITHREDU TREAMLOD

Wedi ei baratoi gan

GYMUNED TREAMLOD

Mewn Cydweithrediad â

CYNNWYS	TUDALEN
Cefndir i'r Cynllun Gweithredu	2
Ardal y Cynllun Gweithredu	2
Hanes	2 - 4
Y Ffordd Ymlaen	4
Cynigion y Cynllun Gweithredu	5 - 12
Adnoddau Cymunedol, Gwasnaethau a Gweithgareddau	5 - 7
Cyfarthrebiadau	8
Amgylchedd (gan gynnwys hawliau tramwy)	8 - 9
Treftadaeth	10
Tai	10
Cyflogaeth (gan gynnwys twristiaeth)	10 - 11
Trafnidiaeth, Ffyrdd and Thraffig	11
Gwaredu gwastraff ac Ail-gylchu	12
Gweithredu/Grwpiau Gweithredu	13

Mae'r Cynllun Gweithredu yma wedi ei gytuno ar 17ed Mai 2005 yn dilyn dosbarthu cynllun gweithredu drafft i'r holl gartrefi yn y gymened

CEFNDIR I'R CYNLLUN GWEITHREDU

Yn gynharach eleni trafododd cynrhychiolwyr o Dreamlod a PLANED cynigion i baratoi Cynllun Gweithredu ar gyfer y pentref. Ar 21ain Chwefror 2005 cynhaliwyd Gweithdy 1 o'r Ymarfer Golwg ar y Gymuned ac ar 7fed Mawrth cynhaliwyd Gweithdy 2. Y canlyniadau sydd yn sylfaen i ddraft cyntaf y Cynllun Gweithredu Cymunedol. Ei fwriad yw ymrwymo pobl o bob oedran a chynrhychiolwyr o sectorau amrywiol y gymuned i baratoi, mabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Gweithredu.

ARDAL Y CYNLLUN GWEITHREDU

Mae Treamlod yn eistedd i'r De o Fynyddoedd y Preseli ger rhagnentydd Nant Spittal ryw filltir i'r gorllewin o'r B4329, sy'n rhedeg rhwng Hwlffordd ac Aberteifi. Mae gan Dreamlod boblogaeth o ryw 150. I'r Dwyrain, rhwng Dreamlod a ffordd Aberteifi, mae anheddiad bychan Wallis sydd a phoblogaeth o 35, gyda Woodstock bron 2 filltir o Dreamlod ar y B4329 a phoblogaeth o 45.

HANES

Mae plwyf Treamlod yn eistedd yn agos i ganolbwynt Sir Benfro, bron yng nghysgodion Mynyddoedd y Preseli. Caiff ei ddiffinio gan ei safle, ei dirwedd, ei hanes, ei ffordd o fyw, ei bobl a gan newidiadau cymdeithasol ac econmaidd sy'n deillio ac yn cael eu rheoli ymhell o'i ffiniau. Er i'w hanes gofnodedig ymestyn nôl bron i mil o flynyddoedd, nid yw'n amlwg pam sefydlwyd anheddiad yma. Mae ffin y pwlyf yn ymlwybro ac mae ond yn cael ei nodi'n achlysurol gan nodweddion corfforol a daearyddol. I'r Gorllewin mae'n diweddu bellach cyn Ceunant Trefgarn, er yr oedd yn cynnwys Cas-Blaidd yn y 19eg ganrif. Yn y De, wedi dilyn Nant Spittal am ychydig , mae'n troi chwrs ar hyd y ffordd o Hwlffordd i Aberteifi, yn cysylltu â rhannau uchaf Nant Cartlett i Lys-y-Fran ac yn troi i'r Gogledd yng nghanol y gronfa. Mae ei ffin ogleddol bron yn linell syth ac yn dilyn yr Heol Rhufeinig drwy Castell Flemming.

Yn weinyddol, mae Traemlod yn gymuned o fewn Cyngor Sir Penfro, ond mae hefyd yn blwyf ac yn bentref. Mae newidiadau o fewn weinyddiaeth leol yn nghof llawer o'i drigolion. Yn 1974, arweiniodd ail-strwythuro llywodraethol at uno Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn Ddyfed, enw teyrnas hynafol yr ardal. Arweiniodd ddiwygio bellach yn 1996 at ailosod y siroedd fel ynghynt. Ail-enwyd plwyfi yng Nghymru yn

gymunedau hefyd yn 1974 a chymerodd Cynghorau Cymunedol le y Cynghorau Plwyf. Mae Dreamlod, er nid yn unigryw, yn arbennig gan fod barn lleol wedi datgan y dylai ffin y gymuned for yr un peth a ffin hanesyddol y Plwyf. Egwlys y Santes Fair yw eglwys plwyfol Dreamlod ac i lawer, mae'r Plwyf yn ddisgrifiad mwy adnabyddus a hanesyddol gywir. I'r sawl nad ydynt yn gysylltiedig â'r eglwys blwyfol, byddai Cymuned yn ddisgrifiad fwy addas, hollgynhwysol a mwy cyfamserol. Bydd y termau yma'n cael eu defnyddio'n gyfnewidiol yma. Tu fewn i gymuned Treamlod ceir pentrefi bychan Wallis a Woodstock, sydd yn amlwg yn eu lleoliadau ond sydd yn gysylltiedig drwy teulu, amaethyddiaeth a gweithgareddau lleol arall a'u cynhwysiad hirsefydlog yn y Plwyf.

Mae tarddiad cymuned Treamlod wedi ei golli yn y gorffennol. Nid yw'n amlwg fod ganddo nodweddion daearyddol, sydd yn aml yn penderfynnu lleoliad anheddiad. Nid oes cyflifiad afon sylweddol, mae'r heol Rufeinig a llwybrau'r porthmyn hwyrach tua'r Gogledd; dim ond Woodstock sy'n cael ei hollti gan y briffordd, sy'n pasio dros Mynyddoedd y Preseli. Treamlod oedd plwyf mwyaf ogledd-orllewinol Cant y Daugleddau ac mae carreg ger Garntwrne yn nodi ble roedd ffiniau'r Daugleddau, Cemaes a Dewisland yn cwrdd. Mae carreg hefyd ar glawdd Pen Lan yn nodi ffiniau Treamlod a Chasfuwch. Mae aneddiadau cynnar wedi eu gwasgaru drwy'r Plwyf a thu hwnt. Siambr Gladdu Parc y Llyn yw'r wrthrych adnabyddedig debygol hynaf ond ceir hefyd adfeilion capel a safle chladdu yn Rinaston a Woodstock, preswylfod ffosedig yn Wallis Rath a gorsaf Rhufeinig yng Nghastell Flemming.

Er fod aneddiadau Flemaidd nodedig o Sir Benfro drwy Plwyf Treamlod, ac er gwaethaf newidiadau boblogaethol diweddar, mae cymeriad Treamlod yn ddiamheuol Gymraeg. Byddai'n anghywir i'w gynnwys yn y disgrifiad amheus 'Lloegr Fach tu hwnt i Gymru' a roddir i De Sir Benfro; yn fwyaf gan daflenni teithio. Mae'r Lansger aneglur mwy na thebyg yn gorwedd i'r de o Dreamlod er fod rhai haneswyr yn ei gysylltu â Woodstock. Mae'r mwyafrif o deuluoedd gynhenid yn Gymraeg eu hiaith ac mae llawer yn dewis defnyddio'r Gymraeg. Mae'r dirywiad ym mhoblogaethau gwledig, amaethyddiaeth a diwydiannau dros y blynyddoedd a'r mewnlifiad o Loegr a thu hwnt wedi cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg. Ar y llaw arall, gwelwyd adfywiad drwy dysgu a defnydd ehangach o'r Gymraeg yn yr ysgolion, Deddf Iaith a penderfyniad canran o drigolion newydd i ddysgu'r Gymraeg.

Mae newidiadau yn y gymuned bron yn anochel, ond mae eu heffaith yn fwy amlwg wrth edrych ar amseroedd cynt. Os cymharir 2000 a 1900, mae'r newidiadau yn ddramatig iawn. Yn y 100 mlynedd yma gwelir

‘ehediad o’r tir’. Hynny yw, mae’r nifer o deuluoedd ac aelodau o’r teulu sy’n gweithio o fewn yr ardal wledig yma wedi dirywio’n sylweddol. Amaethyddiaeth yw’r weithgaredd amlycaf o hyd ond mae peiriannau a chau a llyncu ffermydd llai wedi arwain at newid ym mhatrwm gyrfaoedd. Mae diwydiannau gwledig cysylltiedig fel y gof, melinydd a’r chrur wedi dirywio neu diflanu. Mae symudoldeb ehangach yn golygu fod nifer o aelodau’r gymuned yn cymudo yn hytrach na gweithio tu fewn iddo. Maent hefyd yn siopa ac yn hamddena tu allan i’w ffiniau. Felly yn 2000 nid oes siop, swyddfa bost na thafarn yn Nhreamlod. Er prinder yr adnoddau, mae bywyd cymunedol llewyrchus wedi ei ganoli o amgylch Eglwys y Plwyf a’i neuadd, y capeli yn Nhreamlod a Woodstock a’r Neuadd Goffa yn Woodstock.

CYNIGION Y CYNLLUN GWEITHREDU

Bwriad y Cynllun Gweithredu yma ar gyfer Cymuned Treamlod, sy'n cynnwys Wallis a Woodstock, yw disgrifio cynigion a adnabyddwyd gan bobl lleol i'w weithredu dros y blynyddoedd nesaf. Y prif amcan yw gwella safon bywyd yn y gymuned drwy hyrwyddo golwg yr ardal, gwella'r economi, gan gynnwys twristiaeth ac amaethyddiaeth, a chryfhau ac arallgyfeirio ei ddengarwch i'r holl drigolion ac ymwelwyr.

ADNODDAU CYMUNEDOL, GWASANAETHAU A GWEITHGAREDDAU

Adnoddau Cymunedol a Gwasanaethau

Sylwadau
Mewn blynyddoedd a fu roedd Treamlod yn hunan-gynhaliol gyda nifer o siopau, roedd yr offeiriad yn byw yn lleol ac roedd neuadd yr eglwys yn weithgar iawn gyda nifer o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal, gan gynnwys cyngherddau a charnifalau. Mae yna ofid fod gaffaeladwyedd gwasanaethau ac adnoddau lleol yn parhau i ddirywio a fod lefel yr ysbryd cymunedol yn dilyn yr un trywydd. Mae'r difaterwch yma i'w weld yn y nifer llai o fobl sy'n helpu i drefnu a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Ni chynhaliwyd y Diwrnod Chwaraeon flynyddol llynnedd, am y tro cyntaf ers 1977, am fod cyn lleied o blant a diddordeb. Mae ysgogi'r pobl ifanc yn angen allweddol.

Mae'r dirywiad mewn gwasanaethau hefyd yn effeithio ar gymunedau cyfagos fel bod tafarndai, ysgolion, siopau a swyddfeydd post yn mynd yn llai cyfleus i drigolion Treamlod. Mae'r genhedlaeth ieuengaf yn debygol o symud i ffwrdd i lefydd gyda gwell adnoddau a mwy o wasanaethau.

Eglwys y Santes Fair a Capel Bethel yw ffocws nifer o weithgareddau gan gynnwys Undeb y Mamau sydd yn cael ei gefnogi'n dda ac Ysgol Sul. Mae yna neuadd eglwys ond mae mewn cyflwr gwael ac o dan fygythiad o gael ei gau. Nid yw Neuadd Goffa Treamlod yn Woodstock, bron dwy filltir i'r gorllewin o'r pentre, o fewn y pentref nac o fewn bellter cerdded i'r pentref felly teimlir nad yw'n gwasanaethu'r gymuned. Cynhelir gweithgareddau cymdeithasol eraill mewn pentrefi cyfagos, er enghraifft Tufton a Threletert.

Nid oes adnoddau i blant bychan na plant yn eu harddegau- dim ardaloedd chwarae na chlybiau ieuenctid nac ardal sgrialu. Nid oes clwt pentref ar gyfer chwarae gyda pêl felly mae plant yn chwarae ar y ffordd.

Cynigion

Sefydlu Fforwm Gymunedol i Dreamlod i gyfarfod yn rheolaidd i gefnogi gweithredu'r Cynllun Gweithredu. Y Fforwm:

- i gynnwys cynrhychiolwyr o tu fewn i'r ardal gweithredu
- i ganolbwyntio egni a sgiliau trigolion i gynnal a datblygu'r gymuned
- pe ddymunir i wahodd cynrychiolwyr o fudiadau addas i gyfarfodydd os a phryd yn berthnasol, er enghraifft Cyngor Cymuned Treamlod, Cyngor Sir Penfro neu Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Sefydlu Pwyllgor Neuadd Bentref i 'gyflenwi' neuadd i Dreamlod a fydd yn darparu adnoddau i:

- werthu cynnyrch leol ar fore Sadwrn
- bore coffi / gwerthiannau hen drugareddau
- nosweithiau cymunedol
- cyfleoedd hyfforddiant, er enghraifft Cymorth Cyntaf (i gynnwys Brigâd Ambiwlans Sant Ioan) a TG (i gynnwys SIMTRA).
- gweithgareddau ieuenctid, gan gynnwys y Brownis a Geidiaid, dosbarthiadau coginio
- partïon plant
- clwb llyfrau / cyfnewidfa llyfrau (i gynnwys gwasanaeth Llyfrgell y Sir)
- paratoi cylchlythr cymunedol – darparu hyfforddiant, gweithdai, offer ayyb

Opsiynnau yn cynnwys :

- adnewyddu Neuadd yr Eglwys neu
- adnabod safle posib i adeiladu neuadd newydd

(Fel cam cyntaf awgrymir dylai'r Eglwys ystyried trosglwyddo perchnogaeth y neuadd bresenol i'r gymuned ac i hwn gael ei wneud cyn i'r adeilad ddirywio'n bellach.)

- adnabod safle am ardal chwarae i blant a gosod offer addas
- edrych i adnabod safle i leoli ardal sgrialu

Gellid cael cymorth i chwilio am grantiau wrth nifer o fudiadau gan gynnwys PLANED, Uned Adfywio'r Cyngor Sir, PAVS a Chyngor Cymunedol Treamlod.

GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL

Sylwadau

Y farn hollgynhwysfawr yw fod Treamlod yn gymuned gyfeillgar lle mae pobl yn helpu eu gilydd pan fod angen. Mae yna gnewyllyn o aelodau gweithgar sydd wastad yn cefnogi diwgyddiadau a chynhelir ystad eang o weithgareddau yn Neuadd yr Eglwys gan gynnwys Swper Cynhaeaf a'r Parti Nadolig yn ogystal â boreau coffi aml, bingo, ioga a dosbarthiadau cadw'n heini. Mae yna hefyd grŵp henoed sydd yn cyfarfod, yn mynd a deithiau'n achlysurol ac yn cynnal cinio Nadolig.

Cynigion

Sefydlu Pwyllgor Digwyddiadau o fewn y Fforwm Cymunedol i:

- drefnu a chynnal trafodaethau ar bynciau amrywiol a cynnal boreau coffi fel modd o annog pentrefwyr, enwedig newydd dyfodiaid i gyfarfod a datblygu ysbryd cymunedol. Gallai'r Clwb drefnu dawnsio, dosbarthiadau cyfrifiaduron a gwnïo, clwb garddio, dosbarthiadau ioga a cadw'n heini, grŵp mamau a plant bach.
- trefnu calendr cymdeithasol wedi ei selio ar draddodiadau'r Diwrnod Hŵyl, y Diwrnod Chwaraeon a'r Carnifal ac o bosib cysylltu â'r calendr crefyddol adeg y Cynhaeaf a'r Nadolig.
- trefnu noson '*galloping gourmet*' lle ceir pob cwrs mewn wahanol dŷ, ffordd da o godi arian a dod a'r gymuned at ei gilydd.
- sefydlu Clwb Bwyta'n Iach i gyflenwi'r gweithgareddau cadw'n heini.
- cydlynu trafnidiaeth i ieuenctid sydd am fod yn aelodau o dîmoedd pêl-droed neu rygbi.
- trefnu teithiau bws i holl aelodau'r gymuned.
- trefnu i 'dafarn symudol' ymweld â Neuadd Dreamlod yn fisol.
- cydlynu Cynllun Gwarchod Cymdogaeth i'r ardal.
- cyfeillio Treamlod gyda pentref cymharol a threfnu digwyddiadau a gweithgareddau cyfochrog.
- sefydlu clwb bowlio – yn y neuadd bentref neu ar lawnt allanol.

CYFARTHREBIADAU

Sylwadau
Mae yna hysbysfyrddau yn Nhreamlod ar gyfer taflenni a posteri, Cylchlythyr Plwyf a Chylchgrawn yr Eglwys. Fodd bynnag, mae rhai o'r byrddau yma tu fewn adeiladau, sydd ar gau am rhan o'r amser. Mae yna deimlad fod prinder gwybodaeth o weithgareddau'r Cynghor Cymunedol.

Mae'r papurau lleol, Radio Pembrokeshire a llafar gwlad yn ffynonellau eraill o gyfarthrebu; hefyd, disgwylir cysylltiadau bandlydan ym mis Mehefin.

Cynigion

- mwy o hysbysfyrddau i fod yn hawdd eu cyrraedd ac mewn safle gweladwy, er enghraifft ger y cysgodfa bws ac ar ochr gorllewinol y pentref.
- mewn cydweithrediad â'r Eglwys a'r Capel, paratoi cylchlythr cymunedol i bawb. Mae angen adnoddau ar gyfer printio a dosbarthu.
- gwella cysylltiadau gyda Cyngor Cymunedol Treamlod.

AMGYLCHEDD, GAN GYNNWYS HAWLIAU TRAMWY

SYLWADAU
Mae'r cefn gwlad o amgylch Traemlod yn gymysgedd o weundir agored a thir pori. Tra fod gan y comins o amgylch Treamlod a Wallis, sydd wedi eu cofrestri fel Tir Comin, pridd o safon isel maent yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt gan gynnwys adar. Mae comin Wallis, a adnabyddir hefyd fel Y Garn neu Waun Wallis, wedi ei gofrestri yn Safle o Ddiddordeb Wyddonol Arbennig.

Mae rhwydwaith o lwybrau cerdded a llwybrau ceffylau yn arwain o'r pentref ar i'r comins, rhai ohonynt yn anodd eu cyrraedd. Mae maes parcio bychan gyda meinciau yn edrych drosodd Pwll Wallis, ac fe 'agorwyd' gan y Tywysog Siarl yn 1978. Edrychir ar yr ardal gyfan fel un prydferth a thawel gydag awyr iach. Mae Parc Wledig Llys-y-fran a'r arfordir gyda theithiau cerdded ar hyd Llwybr yr Arfordir yn atyniadau eraill yn yr ardal yn gyffredinol.

Mae presenoldeb awyrennau'n hedfan yn isel a mast radar yn Woodstock yn bryderon.

Cynigion

- mewn cydweithrediad ag awdurdod hawliau tramwy a'r Cyngor Cymunedol, datblygu strategaeth i wella mynediad i lwybrau cerdded a llwybrau ceffylau. Annog ymglymiad lleol am welliannau a chynaladwyaeth yn ogystal â sefydliadau fel Ymddiriedolaeth y Tywysog (i ymgymryd â'r gwaith) neu Lonydd Las (i hyrwyddo mynediad cynaladwy i'r cefn gwlad).
- gweithio gyda'r Cymdeithas Llwybrau Cerdded Treamlod a Chymdeithas y Cominwyr presenol i sicrhau cynigion yn ymwneud â chynaladwyaeth hawliau tramwy yn yr ardal yn gyffredinol.
- datblygu grŵp cerdded trwy'r Pwyllgor Digwyddiadau mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Llwybrau Cerdded.
- paratoi Cynllun Rheoli i Comin Wallis, gan gydnabod pwysigrwydd y safle ond yn cynnwys cyfleoedd am atyniadau i ddenu mwy o ymwelwyr. Er enghraifft, gwella'r rhwydwaith o lwybrau, creu mwy o mannau i wylio bywyd gwyllt a chodi byrddau gwybodaeth.
- plannu blodau a phlanhigion, gan gynnwys llwyni ar y sgwâr ger wal eglwys Treamlod a rhoi mainc ar y sgwâr.
- edrych i godi tyrbinau gwynt graddfa bychan fel ffynhonell ynni cynaladwy.

TREFTADAETH

Sylwadau
Mae Eglwys y Santes Fair wedi ei leoli yng nghanol y pentref. Mae Capel Methodistaidd Calfinaidd Bethel wedi ei leoli ar y ffordd i Spittal ac mae ail gapel Methodistaidd yn Woodstock. Mae amrywiaeth o olion archeolegol yn yr ardal, gan gynnwys cromlech, ac mae tystiolaeth o gaeran Rhufeinig i ogledd Ddwyrain Treamlod. Mae hefyd fynwent sydd wedi ei leoli i'r dwyrain o Dreamlod.

Mae Melin Wallis wedi ei leoli rhwng Wallis a Threamlod a cheir Cofgolofn Llewellin, pâr o ffigyrau marmor gwyn, yn fferm Scollock West.

Cynigion
- paratoi a cyhoeddi llyfryn yn disgrifio cefn gwald a threftadaeth yr ardal a dangos hawliau tramwy lleol.
- Gweithio gyda'r Gymdeithas Hanes presenol i gyflawni'r cynigion yma, a rhoi gwybodaeth i'r gymuned trwy'r Fforwm Gymunedol.

TAI

Sylwadau
Mae plant a phobl ifanc yn gadael yr ardal, gan fod prinder o dai fforddadwy.

Cynigion
- datblygu rhywfaint o dai fforddadwy i ateb gofynion lleol. Edrych i ddarparu tai costau isel i ddenu a chadw prynwyr tro cyntaf yn y gymuned.

CYFLOGAETH (GAN GYNNWYS TWRISTIAETH)

Sylwadau
Mae cyflogwyr lleol ar raddfa isel ac yn cynnwys amaethyddiaeth, adeiladwyr, cartref nyrsio a chlustogwr. Yn bellach i ffwrdd mae Hwlffordd yn cynnig amrywiaeth o gyflogaeth gan gynnwys Ysbyty Llwynhelyg.

Dylai answadd yr amgylchedd, arian Amcan 1 a chyngor o sefydliadau busnes gynnig potensial i ehangu gweithgareddau twristiaeth. Fe ddylai cyfleoedd cyflogaeth lleol gynnwys pobl ifanc.

Cynigion

- codi proffil Treamlod fel ran o ardal dwristiaeth canolbarth Penfro i gynnwys Mynyddoedd y Preseli, Llys-y-Fran, Oakwood a rhwydwaith o lwybrau ceffyl a llwybrau cerdded.
- annog darparwyr Gwely a Brecwast ychwanegol drwy godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a darparu hyfforddiant busnes.
- ymchwilio'r potensial i gyfeillio Treamlod gyda gymuned tebyg i hyrwyddo twristiaeth leol ac annog ysbryd cymunedol.
- ymchwilio'r posibilrwydd o sefydlu darparwr gweithgareddau marchogol gan gynnwys merlota lleol a / neu lifrai.
- wedi cynnal arolwg i gadarnhau'r angen, cyflwyno dosbarthiadau TG i bawb ond yn benodol i ddenu rhieni plant ysgol gynradd a'r henoed. Gallai gwella sgiliau TG (a gyda cysylltiadau bandlydan) helpu cynhyrchu cyfleoedd busnes lleol. Gallai Fforwm Treamlod gefnogi ceisiadau am arian, o bosib o PLANED, ELWa, y Cyngor Sir a'r Cyngor Cymuned i gyflogi tiwtor lleol.
- ymchwilio cyfleoedd i brynu a gwerthu cynnyrch leol.
- edrych mewn i'r posibilrwydd o ddarparu siop / swyddfa bost leol.
- ymchwilio i ddatblygu mannau i ddarparu lluniaeth i gerddwyr a marchogion ceffylau.

TRAFNIDIAETH, FFYRDD A THRAFFIG

Sylwadau

Mae yna arhosfa bws ger yr eglwys yn Nhreamlod ac un arall yn Woodstock er mae'r gwasanaeth bws yn gyfyngedig. Ar Ddydd Iau mae bws yn rhedeg o Woodstock, Wallis a Threamlod i Abergwaun ac yn dychwelyd wedi teirawr yn Abergwaun. Ar Ddydd Gwener mae gwasanaeth cyfatebol yn rhedeg i Hwlffordd gyda teirawr tebyg ar gael yn y dref. Mae yna ofid ynglŷn âg ymarferoldeb y gwasanaeth bresenol; byddai rhai trigolion yn teimlo ar wahan pe byddai'r gwasanaeth yn cael ei dynnu yn ôl oherwydd byddai yna dibynadwyedd llwyr ar ceir preifet.

Mae rhwydwaith o ffyrdd bychan yn gwasanaethu Treamlod a Wallis. Y B4329 yw'r ffordd ddosbarthedig agosaf sydd a chyfyngder cyflymdra o 40mya trwy Woodstock sy'n cael ei ddefnyddio fel trac rasio gan yrrwyr beiciau modur. Mae presenoldeb cerbydau amaethyddol mawr yn gyrru'n rhy gyflym ac yn gadael mwd ar y ffordd hefyd yn broblem.

Cynigion

- annog cerdded, seiclo a marchogaeth ceffylau ar hyd ffyrdd lleol; o bosib drwy rhwydwaith 'lonydd tawel'.
- ymchwilio'r angen i gynyddu amlder y gwasanaethau bws.
- annog Cyngor Sir Penfro i wella ffosiaeth ger y ffyrdd e.e. drwy glanhau gwteri ger y ffordd.
- ymchwilio'r posibilrwydd o gynyddu'r nifer o mannau pasio ar y ffyrdd 'C' yn arwain mewn ac allan o'r pentref.

GWAREDU GWASTRAFF AC AIL-GYLCHU

Sylwadau

Nid oes adnoddau ail-gylchu yn Nhreamlod. Mae'r banc poteli agosaf yng Nghasmael ac mae banc papur yn Nhreletert. Fodd bynnag mae dymuniad i ail-gylchu a gwneir hyn fel arfer ar ymweliadau i lefydd eraill a thrwy gwrteithio gwastraff.

Cynigion

- hysbysebu'r mannau ail-gylchu papur, tiniau, poteli, dillad a phlastig agosaf.
- annog Cyngor Sir Penfro i gyflwyno cynllun bagiau oren.

GWEITHREDU / GRWPIAU GWEITHREDU

Er mwyn sicrhau fod y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu'n effeithiol awgrymir creu Grwpiau Gweithredu diddordebau arbennig o fewn y Fforwm Gymunedol. Bydd y Grwpiau, mewn cydweithrediad â'r darparwyr perthnasol, er enghraifft yr Awdurdod Traffyrdd, yn canolbwyntio ar baratoi cynlluniau gweithredu manylach yn rhoi blaenoriaeth ac yn ffocysu ar y cynnigion hynny sydd yn bosib i'w weithredu yn gynnar.

Gellid canolbwyntio'r Grwpiau ar

- Gwasanaethau Cymunedol, adnoddau a chyfarthrebiadau.
- Yr Amgylchedd (gan gynnwys hawliau tramwy), gwastraff ac ail-gylchu.
- Tai, cyflogaeth (gan gynnwys twristiaeth), trafnidiaeth a thraffig.
- Treftadaeth

Mae'n bwysig fod y Grwpiau yn:

- Gweithio o fewn y Cynllun Gweithredu cytunedig a'r Fforwm Gymunedol.
- Gweithio gyda grwpiau a sefydliadau presenol.
- Cyfarfod yn rheolaidd.
- Cadw'r gymuned ehangach yn ymwybodol o ddatblygiadau

Grwpiau Presenol o fewn Treamlod:

Cymdeithas Llwybrau Cerdded Treamlod
Cymdeithas Hanes Treamlod
Undeb Mamau Treamlod
Cymdeithas y Cominwyr
Pwyllgor Chwaraeon Treamlod
Cyngor Cymuned Treamlod
Pwyllgor Henoed Treamlod

Capel Woodstock & Capel Treamlod
Parchedig William Owen

Eglwys y Santes Fair
Parchedig David R Rees